OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1326

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 5, Arbedion, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2017

**Ystyr gwasanaeth trosiannol**

**3.** Ystyr "gwasanaeth trosiannol" yw sefydliad perthnasol neu asiantaeth berthnasol y mae person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef neu â hi o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 yn union cyn y prif ddiwrnod penodedig ac—

(a) yn achos cartref gofal neu gartref plant, mae'r cartref wedi ei bennu mewn cais a wneir cyn y dyddiad perthnasol o dan adran 6 o'r Ddeddf fel man lle y mae gwasanaeth cartref gofal i'w ddarparu;

(b) yn achos cartref plant sy'n darparu llety at ddiben cyfyngu ar ryddid, mae'r cartref wedi ei bennu mewn cais a wneir cyn y dyddiad perthnasol o dan adran 6 o'r Ddeddf fel man lle y mae gwasanaeth llety diogel i'w ddarparu;

(c) yn achos canolfan breswyl i deuluoedd, mae'r ganolfan wedi ei phennu mewn cais a wneir cyn y dyddiad perthnasol o dan adran 6 o'r Ddeddf fel man lle y mae gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd i'w ddarparu;

(d) yn achos asiantaeth gofal cartref, mae'r ardal y mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau ynddi wedi ei phennu mewn cais a wneir cyn y dyddiad perthnasol o dan adran 6 o'r Ddeddf fel man y mae gwasanaeth cymorth cartref i'w ddarparu mewn perthynas ag ef.